# BREUDDWYDIO BREUDDWYDION A GWELD GWELEDIGAETHAU

LLYTHYR BUGEILIOL ODDI WRTH ESGOB GREGORY
ar gyfer dydd Iau, 16 Gorffennaf 2020

Un o roddion yr Ysbryd, sy'n cael ei gydnabod yn yr Ysgrythur, ac sy'n rhan amlwg iawn ym mywyd yr Hen Destament a'r Testament newydd, yw'r rhodd o Broffwydoliaeth. Dywedodd un o'r Proffwydi, Joel, y dylen ni ddisgwyl llawer mwy ohono. Ysgrifennodd: "Ar ôl hyn" meddai Duw, "tywalltaf fy ysbryd ar bob dyn. Bydd eich meibion a'ch merched yn proffwydo, bydd eich hynafgwyr yn gweld breuddwydion a'ch gwŷr ifanc yn cael gweledigaethau", a phan ddaeth y Sulgwyn, dywedodd yr apostolion wrthym ni y byddwn ni, ym mywyd yr Eglwys, yn gweld yr ysgrythurau'n cael eu gwireddu. Felly, ble mae proffwydoliaeth heddiw?

Rwy'n meddwl fod yna ddau beth allai'n helpu i sylweddoli beth yw proffwydoliaeth yn ôl dealltwriaeth feiblaidd. Yn gyntaf, nid yw gymaint ynghylch proffwydo'r dyfodol ag yw ynghylch dangos canlyniadau'r hyn y mae Duw'n ei ddweud wrth y byd sydd ohoni. Rwy wedi gweld silffoedd mewn siopau llyfrau'n gwegian o dan 'Broffwydoliaethau Nostradamus" nad oes â wnelon nhw ddim â gwir broffwydoliaeth, sef y gwirioneddau y mae Duw'n ein gwysio ni i'w hufuddhau. Hynny yw, fel y dywedodd rhywun "darllen arwyddion yr amserau".

Yn ail, mae'n hynod wleidyddol. Mae cymaint o bobl yn mynd yn bigog pan fydd arweinwyr yr Eglwys yn trafod sefyllfaoedd gwleidyddol, yn dweud wrthym ni am fendio'n busnes, sef, mewn gwirionedd, rwy'n meddwl eu bod eisiau gweld crefydd yn cael ei neillto oddi wrth realiti brwnt, oddi wrth y gwirioneddau y byddai'n well ganddyn nhw beidio â'u hwynebu. Roedd y Proffwydi yn y Beibl - pob un, gan gynnwys Iesu – yn dweud y gwir wrth bobl gyfoethog a phobl rymus y cyfnod, ac yn aml yn cael yr union ymateb negyddol hwnnw: paid â meiddio. Dyna pam y cafodd cymaint ohonyn nhw eu lladd.

Felly, lle mae proffwydoliaeth heddiw? Mae rhai Cristnogion yn gobeithio gweld rhywbeth cyffrous yn codi o addoli llesmeiriol, ond rwy i'n meddwl fod proffwydoliaeth yn digwydd pan fydd ffydd a doethineb yn cyd-fynd â'i gilydd: y doethineb i allu dirnad sut y mae Duw'n ein herio ni ar hyn o bryd. Ac mae yna lawer o broffwydi yn ein plith – ac un ohonyn nhw yw John Bell o Gymuned Iona. Wythnos neu ddwy yn ôl, roedd yn siarad ar 'Sunday Worship' BBC Radio 4 ac roeddwn i'n cael y teimlad fod yr hyn yr oedd yn ei ddweud yn broffwydol, roedd yn gofyn beth oedd canlyniadau ein cred Gristnogol ac yn dangos sut yr oedd yn rhaid iddyn nhw effeithio ar sut ydyn ni'n adeiladu ein byd. Dyma ychydig o'r hyn oedd ganddo i'w ddweud:

> "Os ydyn ni'n credu, fel y dywedodd Iesu, 'cewch wybod y gwirionedd a bydd y gwirionedd yn eich rhyddhau', ydyn ni eisiau i blant fod mor anwybodus yn y dyfodol ag y mae rhai, os nad y rhan fwyaf ohonon ni, oedolion, wedi bod? Wyddoch chi, roedd yn rhaid i mi ddisgwyl nes fy mod i'n hanner cant cyn darganfod fod yr Alban yn berchen traean o'r ystadau caethweision yn Jamaica, ac mai ffrwyth caethgludo Affricanwyr ar draws yr Atlantig, oedd yn cael ei oddef gan eglwysi Cristnogol, yw ysblander Fictorianaidd Glasgow a dinasoedd eraill Prydain. Oes raid i ni ddisgwyl i gofgolofnau gael eu dymchwel cyn i ni dderbyn cyfrifoldeb am ein gorffennol?

“Os ydyn ni’n credu, fel y dywedodd Iesu, fod yna newyddion da i’r tlodion, ac os ydyn ni’n gwybod fod tlodi ar gynnydd yn ein gwlad, a bod pobl mewn ardaloedd tlawd yn llawer mwy tebyg na rhai o ardaloedd cefnog farw o Covid-19, ydyn ni’n barod i gyfaddef y gwir resymau dros hynny a bod yn barod i drin y tlodion yn ein plith gyda pharch yn y dyfodol? Neu a yw’n well gennyn ni ddisgwyl i bersonoliaeth chwaraeon neu seleb y llwyfan enwi anghyfiawnder cyn y bydd yn cael ei unioni?

“Os ydyn ni’n credu fod Duw’n caru’r byd, ac yn gwybod, yn y byd y mae Duw'n ei garu, bod popeth o riffiau coral Awstralia i fforestydd glaw'r Amazon i Begwn y Gogledd a hyd yn oed y wenynen ddisylw, yn cael eu bygwth gan fethiant pobl i barchu cyfanrwydd y cread, ydyn ni'n mynd i ddal ati i fyw mor anghyfrifol fel y bydd yn rhaid i blant yfory fynd i amgueddfeydd i weld yr hyn rydyn ni'n ei gymryd yn ganiataol heddiw?

“Os ydyn ni’n credu fod Iesu wedi rhoi hawl i’w ddisgyblion iachau’r cleifion, ydyn ni’n mynd i fyw gan ddisgwyl mai gan y cwmnïau ffarmacolegol enfawr a thrwy dechnoleg feddygol well y daw’r atebion? Neu a ddylen ni o leiaf ystyried cyfrifoldeb personol a meddygaeth ataliol yn hytrach nag ymatebol?

“Os ydyn ni’n credu fod ots gan Iesu am ryddhau carcharorion, a’n ninnau’n gwybod yn iawn fod gwreiddiau troseddu yn aml mewn trawma ac amddifadedd plentyndod, ydyn ni'n mynd i fodloni ar adeiladu mwy o garchardai neu a ydyn ni’n mynd i chwilio i weld beth ellir ei wneud i atal pobl fregus rhag dod yn droseddwyr?

“Ac os ydyn ni'n credu tystiolaeth yr efengylau, fod Iesu wedi treulio canwaith mwy o'i fywyd yn iachau, dysgu, efengylu a thrafod wyneb yn wyneb â phobl nag a dreuliodd erioed ar frics a mortar, ydyn ni'n mynd i ffurfio dyfodol ein heglwys yn ol ei flaenoriaethau neu ddal i rygnu am gynnal a chadw adeiladau a strwythurau, rhai y mae wedi eu hoes wedi hen ddod i ben?

Dyma beth yw hanfod proffwydoliaeth i mi, mae John yn gafael yn y gwirioneddau sylfaenol rydyn ni’n eu gwybod am Dduw ac yn eu cymhwyso'n uniongyrchol i ddangos beth yw ein cyfrifoldeb ni ynghylch yr hyn sy’n digwydd yn y byd. Efallai bod rhai, os nad y cyfan, o’r rhain, yn gwneud i ni deimlo’n eithaf anghyfforddus – ond dyna mae Duw'n ei wneud - mae eisiau i ni symud o ble rydyn ni, i adeiladu, o dan ei arweiniad a chyda'i ras, Deyrnas Dduw. Yr her yw – beth sy’n digwydd nesaf? Roedd Iesu’n gorffen ei ddamhegion yn aml gyda “Yr hwn sydd ganddo glustiau i wrando, gwrandawed!, a, gallen ni ychwanegu “a gweithredu”.

Rwyf wedi dweud o’r blaen mai wrth ddod allan o'r cyfnod clo yw’r adeg i ddysgu gwersi'r cyfnod clo. Yr adeg hynny yw nawr, a sut y byddwn ni’n ymateb i anogaeth Duw ac i’r broffwydoliaeth sy’n digwydd yn ein plith?

